

# Cyrsiau Gloywi

## Welsh Proficiency

### Courses

## 2014-15

### Rhagair

Mewn gwlad ddwyieithog lle rhoir pwys mawr ar fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae llawer o bobl am loywi eu Cymraeg ysgrifenedig a llafar er mwyn ei defnyddio hi'n gywir ac yn hyderus yn y gwaith ac yn y gymuned. Mae'r cyrsiau hyfedredd a ddarperir gan Ganolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru wedi eu cynllunio'n unswydd i helpu pobl o'r math hwn i wella eu sgiliau iaith yn y Gymraeg. Yn ogystal, gan mai ar lefel 4 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (CQFW) y mae'r cyrsiau hyn, maen nhw hefyd yn darparu llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr profiadol sydd wedi bod yn astudio ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion, ac sydd am fwrw ymlaen i ddatblygu eu sgiliau llafar ac ysgrifenedig yn yr iaith i'r eithaf er mwyn hyrwyddo eu gyrfa academaidd neu broffesiynol neu er mwyn eu datblygiad personol eu hunain.

Phyllip Brake  
Cyd-gysylltydd

### Nod y cyrsiau gloywi

Bydd myfyrwyr cyrsiau gloywi yn dysgu am ystod eang o bynciau a chysyniadau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, yn enwedig sut y mae gramadeg y Gymraeg yn gweithio, ynghyd â chael eu cyflwyno i'r diwylliant Cymraeg a hanes Cymru tra, ar yr un pryd, byddan nhw'n datblygu eu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu yn y Gymraeg i'w galluogi i ddefnyddio'r iaith gyfoes mewn sefyllfaoedd proffesiynol a galwedigaethol.

### Dulliau dysgu ac asesu

Mae'r dulliau dysgu a fabwysiedir ar y cyrsiau gloywi'n addas i oedolion sy'n dysgu yn y gymuned. Yn ystod pob gwrs, caiff amser ei glustnodi i:

- gyflwyno cysyniadau a gwybodaeth newydd;
- gwneud ymarferion gramadegol;
- datblygu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu; a
- datblygu sgiliau gweithio fel rhan o dîm.

Mae disgwyl i fyfyrwyr wneud ymchwil bersonol er mwyn cymryd rhan yn y gweithgareddau dysgu hyn.

Caiff gwaith y myfyrwyr ei asesu trwy gyfrwng:

- aseiniadau ysgrifenedig;
- cyflwyniadau ar lafar;
- ymarferion gramadegol; ac
- aseiniadau cyfieithu a thrawsieithu.

Bydd myfyrwyr yn gallu monitro eu cynnydd o safbwynt yr wybodaeth, a'r sgiliau, sy'n berthnasol i'r cwrs y maen nhw'n ei ddilyn, trwy wneud aseiniadau perthnasol a fydd yn gymorth i'w datblygiad personol. Bydd y tiwtor cwrs yn rhoi cyngor a chymorth, ac fe geir adborth adeiladol am y gwaith a wneir.

### Sut mae'r cyrsiau gloywi'n cael eu hachredu?

Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau'n cael ei achredu gan Agored Cymru (Open College Network) ar lefel 4 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (CQFW) sy'n cyfateb i flwyddyn 1 yn y brifysgol. Dengys Ffig. 1 lwybrau dilyniant i ac o fewn y cyrsiau hyfedredd.

### Y CYRSIAU

#### Cymraeg Graenus 1

Mae 'Cymraeg Graenus 1' wedi ei gynllunio i wella Cymraeg ysgrifenedig myfyrwyr a miniogi eu sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg. Caiff sylw arbennig ei roi i Gymraeg llenyddol a'r math o Gymraeg a geir mewn dogfennau swyddogol.

O safbwynt gramadeg, mae'r cwrs hwn yn ymdrin ag: orgraff y Gymraeg, enwau ac ansoddeiriau, y cymal perthynol, y ferf reolaidd, berfau afreolaidd, y modd dibynnol, a'r treigladau. Rhoir sylw arbennig at drawsieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Bydd ennill y modiwl hwn yn gaffaeliad mawr i'r sawl sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel prifysgol.

#### Cymraeg Graenus 2

Mae 'Cymraeg Graenus 2' yn ddilyniant i 'Cymraeg Graenus 1'. O safbwynt gramadeg, bydd y cwrs hwn yn ymdrin â: threigladau sefyllfaol, y cymal enwol, trefnolion, geirynnau rhagferfol, rhagenwau mewnol, a chysyllteiriau. Datblygir sgiliau cyfieithu gan dynnu sylw arbennig at wahanol arddulliau Cymraeg ysgrifenedig. Bydd ennill y modiwl hwn yn gaffaeliad mawr i'r sawl sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel prifysgol.

#### Cymraeg Proffesiynol 1

Mae 'Cymraeg Proffesiynol 1' wedi ei gynllunio i helpu siaradwyr y Gymraeg, a dysgwyr profiadol, i drafod pynciau cymhleth yn y Gymraeg – yn enwedig mewn sefyllfaoedd busnes a phroffesiynol – yn raenus, ar bapur ac ar lafar, yn y Gymraeg. Gwneir hyn trwy gyfuniad o hyfforddiant manwl, trafod pwrpasol yn y dosbarth a hunanastudio tu allan i oriau'r dosbarth. Mae'r modiwl hwn yn datblygu: sgiliau llunio dogfennau swyddogol, sgiliau cyfathrebu, sgiliau cyflwyno, a sgiliau cyfieithu at ddibenion busnes yn y Gymraeg.

#### Cwrs Cymraeg Proffesiynol 2

Mae 'Cymraeg Proffesiynol 2' yn ddilyniant i 'Cymraeg Proffesiynol 1'. Fel 'Cymraeg Proffesiynol 1', fe'i cynlluniwyd ar gyfer myfyrwyr sydd am wella eu sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu yn yr iaith, i'w helpu i gyflawni dyletswyddau proffesiynol a busnes yn y Gymraeg. Mae 'Cymraeg Proffesiynol 2' yn parhau i ddatblygu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu siaradwyr y Gymraeg, a dysgwyr profiadol, i'w defnyddio mewn cyd-destun busnes a phroffesiynol.

#### Cyrsiau gloywi byr

Mae'r cyrsiau tri chredyd hyn yn para 15 awr yr un, ac maen nhw'n seiliedig ar unedau achredu hyfedredd Agored Cymru (OCN): (i) 'Ysgrifennu'n ffurfiol yn y Gymraeg', (ii) 'Dadansoddi Cymraeg clir at ddibenion proffesiynol', (iii) 'Cyfieithu darnau cofnodol i'r Gymraeg', (iv) 'Trawsieithu sgwrs dechnegol i'r Gymraeg' a (v) 'Gwneud cyflwyniad yn y Gymraeg'. Fe'u cynigir yn ôl y galw a'r gynulleidfa darged. Maent yn ddelfrydol ar gyfer cyrsiau yn y gweithle.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan:


Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru, P5, Campws Pen-glais, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SY23 3UX; ☎ 0800 8766975; ✉ [cymraegioedolion@aber.ac.uk](mailto:cymraegioedolion@aber.ac.uk); <http://www.learnwelshinmidwales.org/>

## Llwybrau Dilyniant Posib Tystysgrif Lefel 4 mewn Hyfedredd Iaith Agored Cymru (FfCC)

(I ennill y Dystysgrif, mae angen ennill 18 o gredydau; rhaid ennill **naill ai** FN34CY008 **neu** FN34CY011)

Cynigir cyrsiau anghredydol fel 'Gloywi Sgwrs ac Ysgrifen' er mwyn magu hyder myfyrwyr cyn mynd ymlaen i wneud cyrsiau mwy ystrwythuredig.

Er bod yna lwybrau dilyniant clir i'r cyrsiau gloywi iaith, mae pob un yn datblygu sgiliau iaith arbenigol sy'n addas i ofynion academaidd neu alwedigaethol.



**a**

<i>Allwedd:</i>	
<b>Rhagofynion</b>	= prerequisites
<b>APEL</b>	= Accreditation of Prior and Experiential Learning
<b>FfCC</b>	= Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (CQFW)
<b>Lefel 4</b>	= Blwyddyn gyntaf gradd Prifysgol; weithiau fe'i gelwir <b>Lefel Hyfedredd</b> (Proficiency Level)

**Tystysgrif Lefel 4 mewn Hyfedredd Iaith Agored Cymru**

## Rhaglen Ceredigion 2014-15

Enw'r Cwrs	Rhif y Cwrs	Lleoliad	Canolfan	Dyddiad cychwyn	Dyddiad gorffen	Dydd	Amser cychwyn	Amser gorffen	Nifer y sesiynau	Hyd y cwrs (oriau)	Tâl Aelodaeth
Cymraeg Graenus 1	NA128	Aberystwyth	Prifysgol Aberystwyth	01/10/2014	24/06/2015	Mer	10.00	12.00	30	60	£40.00 (£29.00)
Cymraeg Proffesiynol 1	NA129	Aberystwyth	Prifysgol Aberystwyth	01/10/2014	24/06/2015	Mer	13.00	15.00	30	60	£40.00 (£29.00)
Cymraeg Graenus 1	NB114	Aberteifi	Guildhall	29/09/2014	22/06/2015	Llun	19.00	21.00	30	60	£40.00 (£29.00)
Gloywi Sgwrs ac Ysgrifen	NA116	Aberystwyth	Prifysgol Aberystwyth	29/09/2014	23/06/2015	Maw	18.00	20.00	30	60	£40.00 (£29.00)
Gloywi Sgwrs ac Ysgrifen	NA118	Aberystwyth	Prifysgol Aberystwyth	02/10/2014	25/06/2015	Iau	11.00	13.00	30	60	£40.00 (£29.00)

### Cwrs Gloywi Sgwrs ac Ysgrifen

Mae'r cwrs anghredydol hwn ar gyfer dysgwyr Cymraeg i oedolion profiadol sydd wedi bod yn astudio ar lefel uwch yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (CQFC) ac sy'n dymuno mynd ymlaen i fynychu cyrsiau gloywi. Ynddo, trafodir yn fras lenyddiaeth Gymraeg, tra ar yr un pryd bydd myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu yn y Gymraeg.

### FFIOEDD

Mae ffioedd cyrsiau gloywi yn seiliedig ar yr oriau dysgu, sef £40 y tymor (ffi ostyngol: £29).

Mae myfyrwyr sy'n talu'r ffi am y flwyddyn yn gymwys am ddisgownt o 10%.

Mae angen talu'r ffi lawn cyn diwedd mis Hydref i fod yn gymwys i dderbyn disgownt.

### BWRSARI A'R GRONFA ARIANNOL

Mae myfyrwyr yn medru gwneud cais i dderbyn cymorth os yw incwm y cartref yn llai na £17,700. Mae angen i'r myfyriwr cwblhau ffurflen gais (copïau gan y tiwtor neu o Aberystwyth) a'i hanfon at Goleg Meirion Dwyfor sy'n gweinyddu'r ceisiadau.

### BWRSARI

Ffi y cwrs am ddim

### CRONFA ARIANNOL

1. Deunyddiau cwrs
2. Costau cefnogaeth ychwanegol
3. Costau teithio
4. Costau gwarchod plant